


Heol y Castell



Yn dilyn ymgynghori ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, disgwyliar i'r gwaith adeiladu ddechrau ar Ogledd Canol y Ddinas: Disgwyliar dechrau'r gwaith adeiladu ar Heol y Castell (isod) yn hydref 2020.



Heol y Castell

Dyma'r Mesur Ymbellhau Cymdeithasol COVID19 presennol ar Stryd y Castell.

Bydd y cynllun adeiladu terfynol ar waith o'r hydref, a bydd gwybodaeth a diweddariadau pellach yn cael eu hanfon maes o law.





Heol y Castell: Gosodiad ffordd presennol





COVID 19: Cau lonydd i gynorthwyo ymbellhau cymdeithasol



 Cau lonydd i gynorthwyo ymbellhau cymdeithasol
 Trefnu conau

 Bysus i stopio yn y lôn draffig

 Nid yw hyn yn effeithio ar safloedd bus



Heol y Castell



Manylion

Gwella Ansawdd Aer a'r Amgylchedd

- Bydd gostyngiad mewn traffig yn lleihau llygredd aer o dan gyfyngiadau cyfreithiol.
- Gosod draeniau cynaliadwy a gerddi glaw.
- Planhigion bioamrywiol ar safleoedd bws.

Gwelliannau Ar Gyfer Beicio

- Lôn feicio ar wahân ddwyffordd newydd o Bont Caerdydd i Boulevard de Nantes.
- Yn Boulevard de Nantes, bydd beicwyr yn parhau ar hyd lôn feicio ddeuffordd arall ar wahân trwy gam goleuadau traffig penodol ar gyfer beiciau.
- Ar Bont Caerdydd, bydd beicwyr yn parhau ar Daith Taf neu Feicffordd 4 i'w chyflawni yn rhan o gam arall.

Gwelliannau Ar Gyfer Cerddwyr

- Croesfannau newydd gydag arwyddion i gerddwyr ar bob rhan o gyffordd Boulevard de Nantes. Caiff y danffordd bresennol ar Heol y Gogledd ei hamnewid am bwynt croesi un-lefel.
- Rhoi arwyneb newydd i'r llwybr cerdded a gwella'r parth cyhoeddus.
- Ardal ddyrchafedig newydd o flaen Castell Caerdydd.

Newidiadau I Fysus

- Addasu cynlluniau safleoedd bysus i gynnwys ffyrdd osgoi ar gyfer beicwyr.
- Bydd y lôn fysus tua'r gorllewin yn cael ei hymestyn i'r gorllewin o'r gyffordd â Heol y Porth tuag at Bont Caerdydd, gan gymryd un lôn draffig.
- Cadw'r lonydd bysus presennol.
- Lleihau'r traffig yn yr ardal yn gyffredinol.

Dyluniad A Chynllun Y Ffordd

- Cael gwared ar un lôn draffig tua'r dwyrain, ar Stryd y Castell, i wneud lle ar gyfer y lôn feicio newydd.
- Bydd y ddwy ran uwch ar Stryd y Castell yn cael eu huno i greu darn uwch estynedig.



Heol y Castell

Gwella Ansawdd Aer yng Nghaerdydd

Mae llygredd aer yn broblem leol a chenedlaethol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datgan mai ansawdd aer gwael yw'r penderfynydd amgylcheddol mwyaf arwyddocaol ym maes iechyd.


Mewn ymateb i ofniad cyfreithiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, asesodd y Cyngor lefelau llygredd aer yng Nghaerdydd. Nodwyd y byddai lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) ar Stryd y Castell yn parhau i fod yn fwy na'r terfynau cyfreithiol oni bai bod mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r lefelau llygredd.

Mae'r Cyngor wedi cynllunio a datblygu'r Cynllun hwn gydag amcan allweddol i sicrhau bod lefelau llygredd ar Stryd y Castell yn cydymffurfio â therfynau cyfreithiol erbyn diwedd 2021. Cynhwyswyd y cynllun hwn yn ein Cynllun Aer Glân a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2019.

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â monitro amser real ar gyfarpar a osodwyd ar Stryd y Castell ac mewn mannau eraill yng nghanol y ddinas i ddangos y gwelliannau a ddaw o'r Cynllun i ansawdd yr aer. Bydd y data ar gael yn gyhoeddus ar-lein.

"Mae aer glân yn hanfodol i fywyd o ansawdd da, ac ystyrir ansawdd aer gwael fel y perygl amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU."

Sefydliad Iechyd y Byd



Heol y Castell

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Pan fydd glaw yn disgyn yn yr amgylchedd naturiol, mae nodweddion naturiol fel coed, planhigion, gweiriau, pridd, ynghyd ag afonydd a nentydd yn helpu i brosesu'r dŵr hwn ac mae hyn yn ffurfio rhan annatod o'r cylch dŵr. Yn yr amgylchedd adeiledig, caiff camau arferol y cylch dŵr eu llesteirio'n ddifrifol. Mae'r problemau sy'n deillio o'r difrod i'r cylch hwn yn cynnwys llifogydd, llygredd ac erydu. Mae'r dŵr hwn na all fynd i mewn i'r cylch dŵr naturiol yn rhoi straen ychwanegol ar y system garthffosiaeth. Mae SDCau yn ddull naturiol o reoli dŵr wyneb drwy greu 'safle prosesu dŵr bychan'.

Manteision SDCau:

- Mesurau gostegu traffig naturiol.
- Improve the micro-climate.
- Gwella ansawdd yr aer.
- Dod â natur i'r amgylchedd trefol.

Mae llochesi bws bioamrywiol a Gerddi Glaw yn enghreifftiau o SDCau.

Lleoliadau plannu

Mae canopïau sy'n ffurfio ar frig coed, yn dal y glaw, sy'n anweddu'n raddol, gan leihau'r dŵr sy'n cyrraedd yr arwyneb.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cefnogi ecosystemau ac yn darparu lleoliad hidlo dŵr glaw.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cynnwys cyfuniad o blanhigion gwyrdd a blodau gwyllt. Byddan nhw'n denu ac yn cynnal pryfed a bywyd gwyllt arall.

Gerddi Glaw

SAFLE BYSTIAU
BUS STOP

Llochesi bws bioamrywiol

Gyda chyfuniad o wahanol blanhigion, maen nhw'n helpu i leihau ac arafu'r dŵr sy'n mynd i'r system ddraenio, a bydd to cyfan y lloches bws yn creu cynefin i gynnal pryfed a bywyd gwyllt arall. ynghyd ag amrywiaeth eang o flodau gwyllt.

Gerddi Glaw

Mae Gerddi Glaw fel arfer yn ardal wedi ei phlannu, gydag amrywiaeth o rywogaethau, ac mae'r planhigion yn cyflawni sawl swyddogaeth allweddol; yn dal a glanhau dŵr glaw a dŵr wyneb ffo. Mae'r cyfaint is o ddŵr naill ai'n draenio i gwrs dŵr naturiol neu i'r system ddraenio.

Trawstoriad Gardd Law

Mae manau gwyrdd yn gwella'r amgylchedd dinesig.

Caiff halogion eu tynnu o'r dŵr wyneb ffo gan y llystyfiant.


Gyli: caiff dŵr wyneb ei ddraenio i'r ardd law yn hytrach nag i ddraeniau'r ffordd fawr.

Troedffordd

Ardal hidlo: planhigion a llystyfiant yn helpu i waredu halogion cyn i'r dŵr fynd i mewn i'r systemau carthffosiaeth.

Lôn gerbydau

System ddraenio: cyfaint llai o ddŵr yn mynd i'r system.



Heol y Castell

Ynsoedd Bysus

Stryd y Castell

- Bydd y safleoedd bws tua'r gogledd ar Ffordd y Brenin ar ynys rhwng y trac beicio a'r ffordd.
- Bydd croesfan sebra lle bydd beicwyr yn ildio i gerddwyr i fynd i'r ynys a chyrraedd y safleoedd bws.

Mae Safleoedd Bws yn Wyrdd

- Caiff llawer o doeau y safleoedd bws newydd ar draws canol y ddinas eu plannu gyda llwyni a gwyrddni i helpu i annog pryfed pwysig i mewn i'n hamgylchedd.
- Bydd y safleoedd bws newydd gwyrddach hefyd yn helpu gyda phroblemau draenio dŵr, gan amsugno rhywfaint o'r dŵr glaw a'i ddargyfeirio o'n draeniau prysur.



Croestoriad Ynys Bysus



Golwg o Gynllun Ynys Bysus



Croesfan sebra; beicwyr yn ildio i gerddwyr

Heol y Castell

Cyffordd Heol y Gogledd â Boulevard de Nantes

- Cyffordd Ddirchafedig.
- Tair croesfan i gerddwyr newydd ar un-lefel yn syth ar draws gydag amserwyr cyfrif i lawr (yn cynnwys cyfleuster twcan).
- Gwelliannau i'r ardal gyhoeddus i gysylltu Canol y Ddinas â'r Ganolfan Ddinesig a Pharc Bute.
- Croesfan beiciau dwy ffordd gydag ardal goleuadau traffig dynodedig.
- Gerddi glaw.



Delweddu yn unig

Heol y Castell

Cyffordd Heol y Gogledd a Ffordd y Brenin

- Ynys fysiau symudol newydd gyda llochesi bws bioamrywiol.
- Lôn feicio ddwy ffordd wedi'u gwahanu.



Delweddu yn unig

Heol y Castell

Heol y Castell

- Lôn feicio ddwy ffordd wedi'u gwahanu.
- Ardal ddyrchafedig newydd o flaen Castell Caerdydd.
- Gwelliannau i'r ardal gyhoeddus.
- Croesfannau i gerddwyr wedi'u huwchraddio .

